



# Blociau





Sir y Fflint
Flintshire

Early Entitlement
Cyfle Cynnar

Flintshire Foundation Phase Team
Tîm Cyfnod Sylfaen Sir y Fflint

# Blociau

## CAMAU DATBLYGU WRTH CHWARAE Â BLOCIAU

Yn ystod y camau cyntaf, mae'n bosibl y bydd y plant yn enwi eu hadeiladwaith ar ôl ei gwblhau.

| DISGRIFIAD O'R CAM | CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Mae'n archwilio'r blociau, heb eu defnyddio i adeiladu. Efallai y bydd yn cludo'r blociau o gwmpas ac yn defnyddio bloc fel symbol o wrthrych arall. | **Oedolyn** – Rhoi cyfle i archwilio'r blociau yn yr ardal flociau. Trafod diogelwch a sefydlu rheolau mewn modd sensitif.<br>**Adnoddau** – Blociau. |  |
| Dechrau adeiladu trwy bentyrru a/neu osod blociau ar y wyneb – bydd y plentyn yn gwneud rhesi llorweddol a/ neu fertigol. | **Oedolyn** – Modelu ochr yn ochr â'r plentyn a chynnig cymorth yn ôl yr angen. Darparu adnoddau ychwanegol pan fo hynny'n briodol.<br>**Adnoddau** – Blociau, adnoddau byd bach, trenau ac ati. |  |
| Bydd y plentyn yn gwneud pont trwy osod dau floc gyda gwagle rhyngddynt a'u cysylltu â'r trydydd bloc. | **Oedolyn** – Cynorthwyo'r chwarae mewn modd sensitif. Darparu adnoddau ychwanegol pan fo hynny'n briodol.<br>**Adnoddau** – Blociau, ceir, adnoddau byd bach, ffabrig ac ati. |  |
| Mae'n gosod y blociau i greu lle caeëdig. | **Oedolyn** – Cynorthwyo'r chwarae mewn modd sensitif. Darparu adnoddau ychwanegol pan fo hynny'n briodol.<br>**Adnoddau** – Blociau, adnoddau byd bach, ffabrig, teganau rheoladwy ac ati. |  |
| Mae gan greadigaeth y plentyn elfennau o batrwm a/neu gymesuredd. | **Oedolyn** – Cynorthwyo'r chwarae mewn modd sensitif. Trafod patrymau/ cymesuredd a welir yng ngwaith y plentyn a defnyddio ffotograffau i symbylu a/neu atgyfnerthu.<br>**Adnoddau** – Blociau, drychau diogel, ffotograffau o adeiladau perthnasol ac o greadigaethau'r plant ac ati. |  |

# Blociau

## CAMAU DATBLYGU WRTH CHWARAE Â BLOCIAU

Bydd y plentyn wedi meistroli egwyddorion sylfaenol adeiladu a chynllunio blociau cyn cwblhau'r camau a ganlyn.

| DISGRIFIAD O'R CAM | CYMORTH GAN OEDOLYN AC ADNODDAU | |
|---|---|---|
| Mae'r plentyn yn creu ac yn chwarae gydag adeiladwaith sydd efallai wedi cael enw, yn ystod neu ar ôl ei adeiladu. Mae'r enw'n gysylltiedig â'i ddiben. | **Oedolyn** – Cynorthwyo'r chwarae mewn modd sensitif ac, os yw'n briodol, trafod yr adeiladwaith gan ddefnyddio cwestiynau pen agored. Darparu adnoddau ychwanegol pan fo hynny'n briodol.<br>**Adnoddau** – Blociau, blociau coeden, adnoddau byd bach, ffotograffau, ffabrig, llyfrau cyfeiriol, deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau naturiol, teganau rheoladwy ac ati. |  |
| Mae'r plentyn yn cynllunio ac yn enwi adeilad o flaen llaw gyda manylion perthnasol ac yna mae'n ei greu a'i ddefnyddio i chwarae. | **Oedolyn** – Cynorthwyo'r chwarae mewn modd sensitif. Darparu adnoddau ychwanegol a threfnu ymweliadau â lleoedd perthnasol pan fo hynny'n briodol.<br>**Adnoddau** – Blociau, adnoddau byd bach, ffotograffau, ffabrig, adnoddau gwneud marciau, llyfrau cyfeiriol, deunyddiau wedi'u hailgylchu a deunyddiau naturiol, teganau rheoladwy ac ati. |  |